**Crynodeb o hunan arfarniad o Addysg Grefyddol yn**
**Ysgol Uwchradd Glan y Môr**

(Gweler canllawiau pynciol Ffeil Hunan Arfarnu CYNNAL 2005)

**Cwestiwn 1 : Pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni?**

- Mae hunan arfarniad yn seiliedig ar arsylwadau, gwersi, arfarniad o waith disgyblion, cyfweliadau â disgyblion a dadansoddiad o asesiadau athrawon a/neu ganlyniadau arholiadau.
- Dylid cyfeirio at CA3, CA4 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol), CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol)

- **Barn gryno am brif gryfderau cyflawniad y dysgwyr** **Gradd: 2**

- Mae'r adran yn dilyn cynllun gwaith newydd seiliedig ar y gyfres **'Archwilio Materion mewn Addysg Grefyddol'** yn CA3. Rhoddir sylw i thema newydd bob hanner tymor yn fras. Mae'r rhain yn cynnwys hunaniaeth bersonol a dod i berthyn i grefydd, mynegiant crefyddol trwy addoliad a phererindod, bodolaeth Duw, rheolau, rhagfarn, rhyddid a chyfiawnder, rhyfel a heddwch, corff ac enaid, dioddefaint a pherthynas ag eraill.
- Rhoddir sylw i Gristnogaeth fel prif draddodiad crefyddol Cymru ochr yn ochr â'r prif grefyddau eraill sy'n cael eu cynrychioli yma. Manteisir ar gyfleoedd i roi sylw i'r dimensiwn Cymreig yn rheolaidd.
- Lluniwyd y cynlluniau gwaith yng ngoleuni'r **Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol** a gyhoeddwyd gan APADGOS ac a fabwysiadwyd fel maes llafur yn sirol. Rhoddir sylw i sgiliau'r pwnc ac i sgiliau ar draws y cwricwlwm.
- Mae **disgyblion CA3** yn medru ymateb i grefydd ar sawl lefel. Mae ganddynt wybodaeth am nifer o agweddau o brif grefyddau'r byd. Mae ganddynt ddealltwriaeth o farn y gwahanol grefyddau ar nifer o bynciau perthnasol a chyfoes. Maent yn cael cyfleoedd lluosog i fynegi barn ar lafar ac i gofnodi'n ysgrifenedig. Defnyddir nifer o sgiliau meddwl i ysgogi dadansoddi a meithrin gwerthfawrogiad o grefydd.
- Mae nifer eithaf cyson o **ddisgyblion CA4** yn dewis Astudiaethau Crefyddol fel pwnc i'w ddilyn ar gyfer arholiad allanol TGAU. Mae pawb o ddisgyblion blynyddoedd 10 ac 11 yn dilyn modiwlau mewn Addysg Grefyddol fel rhan o'r ddarpariaeth Addysg Bersonol a Chymdeithasol.
- Yn 2008 roedd canran A*-C yr ymgeiswyr TGAU yn 92% (y canran A*/A yn 67%). Llwyddodd 68% o ddisgyblion CA3 ennill lefel 5 neu uwch. Mae'r adran yn derbyn ymwelwyr yn gyson. Mae'r rhain yn cynnwys arweinwyr eglwysig lleol a gweithwyr ieuenctid o'r mudiad Cristnogol Trobwynt sy'n gweithio'n lleol.
- Gwneir ymweliadau cyson ag eglwysi lleol, synagog ym Manceinion ac Eglwys Gadeiriol Gatholig Lerpwl. Bu disgyblion hefyd ar ymweliad â'r sinema i weld ffilmiau perthnasol i themâu a astudiwyd - 'Amasing Grace' - (William Wilberforce ar ddileu caethwasiaeth), 'The Boy in the Striped Pyjamas' (yr Holocost).

**Pa agweddau fydd yn derbyn sylw'r adran am y ddwy flynedd nesaf?**

- Paratoi cwrs newydd ar gyfer CA4 – dewis manyleb B yn lle manyleb A.
- Datblygu rhai sgiliau ymhellach yn dilyn hunan arfarniadau o waith yr adran - ee, datblygu rhif, ymchwilio annibynnol.
- Ceisio cynyddu'r nifer sy'n dewis Ast. Crefyddol fel opsiwn ar gyfer TGAU.
- Codi'r canran sy'n cyrraedd lefel 5 yn CA3.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cwblhau'r arfarniad:** | **15/07/09** |
| **Arwyddwyd:**<br>**(Pennaeth)** | **Menai Jones** |

**Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.**

| **Cwestiwn 2 : Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?** | |
|---|---|
| • Mae hunan arfarniad yn seiliedig ar arsylwadau gwersi, arfarniad o waith disgyblion, cyfweliadau â disgyblion a gwerthusiad o gyfnodau addoli ar y cyd a gwersi ABaCh.<br>• Disgwylir cyfeiriad yma at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. | |
| **Barn gryno am ansawdd y ddarpariaeth** | **Gradd : 2** |
| • Mae'r ysgol yn ceisio creu naws groesawgar lle mae lles disgyblion bob amser yn flaenoriaeth. Mae staff yr ysgol bob amser ar gael i fod yn glust i ddisgyblion ac yn agored i gyswllt ac ymweliadau gan rieni.<br>• Mae'r ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer addoli ar y cyd. Mae gwasanaethau yn y neuadd i flynyddoedd penodol ac ar y cyd. Ceir ymweliadau cyson gan arweinwyr crefyddol lleol. Mae cyfnodau cofrestru, pan fo plant ddim yn y neuadd, yn cynnwys gweithred o addoliad. Mae themâu ar gyfer pob wythnos yn cynnwys darlleniadau, gweddïau a deunydd myfyrdod. Maent yn cynnwys elfennau crefyddol, moesol a diwylliannol sy'n ysgogi datblygiad ysbrydol.<br>• Mae polisi ysgol yn rhoi arweiniad clir ar faterion yn ymwneud â lles plant yn cynnwys elfennau fel bwlio.<br>• Mae'r Cyngor Ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd arc yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gasglu barn cyd-ddisgyblion, mynegi'r farn honno a'i hadrodd yn ôl i'w cyd-ddisgyblion.<br>• Cynllunnir rhaglen ABaCH cynhwysfawr i hyrwyddol gwerthoedd fel parch, trafod materion moesol, meithrin cyfrifoldeb a hunan-barch. Mae'r gwersi hyn yn rhoi cyfle i ddisgyblion fynegi eu safbwyntiau, datblygu barn ac aeddfedu fel dinasyddion cyfrifol. Trefnir diwrnodau i hysbysu disgyblion o waith asiantaethau gwahanol ym maes lles.<br>• Cyfoethogir y cwricwlwm trwy gynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol. Mae'r rhain yn cyfrannu'n dda i ddatblygiad personol a diwylliannol y disgyblion. Maent yn cynnwys ymweld â theatr a sinema, gwaith maes, ymweliadau tramor, gweld adeiladau crefyddol a hanesyddol, cystadlu yn eisteddfodau'r Urdd, cynnal sioe gerdd a chyngerdd neu wasanaeth Nadolig.<br>• Codir arian i elusennau yn rheolaidd gan ddisgyblion yr ysgol - mae hyn yn cynnwys Cymorth Cristnogol, Readathon a jeans for Genes yn flynyddol a hefyd Ambiwlans Awyr, Plant mewn Angen a Comic Relief. | |
| **Pa agweddau fydd yn derbyn sylw'r ysgol dros y flwyddyn nesaf?** | |
| • Datblygu'r elfen o fyfyrdod yn ystod yr addoli ar y cyd, ee, paratoi lluniau ar 'Powerpoint' ar themâu'r gwasanaethau.<br>• Ehangu'r ddarpariaeth ABaCh trwy ychwanegu elfennau pellach yn CA3. | |

| **Dyddiad cwblhau'r arfarniad:** | **15.07.09** |
|---|---|
| **Arwyddwyd:**<br>**(Pennaeth)** | **Menai Jones** |